# Awgrymiadau gwych ar gyfer cymhathu gwerthoedd wrth sefydlu, goruchwylio ac arfarnu

Mae'r cam cymhathu yn ymwneud â sut y gallwch gynorthwyo gweithwyr newydd i integreiddio i ddiwylliant eich gweithle mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn cael y canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc wrth weithio gyda nhw, yn teimlo eu bod yn ffynnu ac yn mwynhau'r gwaith, ac yn bwysig iawn, bod arnyn nhw eisiau aros. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynglŷn â sut i adeiladu diwylliant yn eich gweithle yn y canllaw 'Diwylliannau Cadarnhaol' a ysgrifennwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## Sefydlu

- Dylech gynnwys gwahanol gyfleoedd i staff newydd ddysgu am eich diwylliant, eich gwerthoedd a'ch disgwyliadau, o ran sut maen nhw'n rhoi eich gwerthoedd ar waith yn eu rôl yn ystod **wythnosau cyntaf eu cyfnod sefydlu.**

**Enghreifftiau o weithgareddau ar gyfer cynllun sefydlu sy'n seiliedig ar werthoedd:**

- Cyfarfod arweinwyr a rheolwyr – gosod disgwyliadau clir o ran yr hyn mae arnoch eisiau ei weld, a'r hyn nad oes arnoch eisiau ei weld
- Cyfarfod a chysgodi'r staff presennol – gweld esiamplau o werthoedd ac ymddygiadau ar waith
- Darllen polisïau, codau ymddygiad a dogfennau eraill – amlinellu eich gwerthoedd a'ch disgwyliadau
- Gosod tasg o sylwi sut mae'r staff yn byw eich gwerthoedd wrth iddyn nhw fynd drwy eu cyfnod sefydlu, a gofyn am eu myfyrdodau a'u sylwadau ar yr hyn maen nhw wedi ei ddysgu mewn sesiynau goruchwyliaeth
- Hyfforddi staff ynglŷn â sut i roi eich gwerthoedd a'ch ymddygiadau ar waith yn eu rôl – Dyma beth rydyn ni eisiau ei weld, a dyma beth nad ydyn ni eisiau ei weld.

- Defnyddio'r wybodaeth y gallech fod wedi ei dysgu am werthoedd, arddulliau dysgu a dewisiadau cyfathrebu'r ymgeisydd i ddatblygu **cynllun sefydlu a hyfforddi** personol, cynhwysol.

- Cynnwys pwyslais ar lesiant staff a strategaethau ar gyfer rheoli eu llesiant a'u gwydnwch eu hunain yn eu cyfnod **sefydlu,** er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod eich bod yn eu gwerthfawrogi ac yn cydnabod heriau yn y rolau, a'ch bod yn rhoi eich gwerthoedd ar waith drwy ofalu amdanyn nhw yn ogystal â gofalu am blant a phobl ifanc.

- Rhoi adborth rheolaidd i staff newydd ynglŷn â beth maen nhw'n ei wneud a sut maen nhw'n rhoi eich gwerthoedd a'ch ymddygiadau ar waith. Mae bwysig sicrhau eich bod yn

rhoi cyfleoedd iddyn nhw fyfyrio ar eu hymddygiad a deall beth mae angen iddyn nhw ei wneud yn unol â'ch diwylliant a'ch disgwyliadau.

## Gorchwyliaeth ac arfarniadau

- Defnyddiwch sesiynau goruchwyliaeth rheolaidd fel cyfle i gydnabod staff pan fyddan nhw'n arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau cadarnhaol, ac i godi a rhoi sylw i bryderon ynglŷn ag ymddygiad ac agwedd.

- Byddwch yn esiampl i eraill drwy arddangos eich gwerthoedd yn eich gwaith, gan ddangos **parch a thosturi** tuag at bobl drwy: raglennu sesiynau goruchwyliaeth, pheidio â chanslo goruchwyliaeth, rhoi amser i bobl baratoi a chaniatáu amser ar gyfer y sgwrs lawn. Mae'n bwysig hefyd i wrando a pheidio â barnu, a chefnogi staff i dderbyn **cyfrifoldeb** am unrhyw newidiadau y mae angen iddyn nhw eu gwneud er mwyn gallu ffynnu a llwyddo yn eu rôl.

- Gwnewch yn siŵr bod y rhai sy'n gwneud arfarniadau wedi cael hyfforddiant, bod y sgiliau ganddynt, a'u bod yn gallu bod yn esiampl o'r gwerthoedd y byddant yn eu trafod yn yr arfarniad.

- Rhowch adborth sy'n seiliedig ar werthoedd i gadarnhau'r gwerthoedd a'r ymddygiadau cadarnhaol y mae arnoch eisiau eu gweld mewn staff, ac i'w helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gellir gwneud hyn mewn goruchwyliaeth, yn anffurfiol mewn sgyrsiau o ddydd i ddydd, a thrwy gydnabyddiaeth ffurfiol i staff, er enghraifft negeseuon e-bost misol gan arweinwyr neu wobrau gwerthoedd staff.

**Enghraifft o adborth sy'n seiliedig ar werthoedd**

'Fe welais i chi'n arddangos ein gwerthoedd **parch a thosturi** yn dda ddoe pan glywais i chi ac X yn cael sgwrs hir am ei ymweliad diwethaf â'i fam.

Rwy'n gwybod pa mor rhwystredig roeddech chi'n teimlo ynglŷn â sut roedd e wedi cael ei drin yn ystod yr ymweliad diwethaf a pha mor ofidus a blin oedd e, a'r ffordd roeddech chi mor garedig, tosturiol ac amyneddgar, ac yn parchu ei ddymuniadau oedd yr union ffordd rydyn ni eisiau, ac rydyn ni'n disgwyl, gweld ein gwerthoedd yn cael eu modelu a'u rhoi ar waith mewn sefyllfaoedd bob dydd.'

- Dylech gynnwys eich gwerthoedd a'ch ymddygiadau mewn sgyrsiau arfarnu drwy gysylltu amcanion a chyflawniadau â'ch gwerthoedd, adolygu'r flwyddyn ddiwethaf a gosod amcanion CLYFAR sy'n gydnaws â'ch gwerthoedd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Enghraifft o sgwrs arfarnu sy'n seiliedig ar werthoedd**

Cyn eich arfarniad, edrychwch ar ein fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau a meddyliwch am 3 pheth rydych wedi ei wneud eleni lle rydych wedi rhoi ein gwerthoedd ac ymddygiadau ar waith.

Edrychwch ar y fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau a nodwch un gwerth lle rydych yn teimlo y gallech ddatblygu eich ymarfer a'ch dull gweithredu drwy fyfyrio ar rywbeth a allai fod wedi mynd yn well yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rwy'n edrych ymlaen at fyfyrio gyda chi a chlywed rhagor am eich enghreifftiau yn eich arfarniad.

**Enghraifft o Amcan CLYFAR sy'n seiliedig ar werthoedd**

**Gwerth: Gwaith Tîm**

Mynd i gyfarfodydd misol y tîm amlddisgyblaethol yn rheolaidd er mwyn adeiladu perthnasoedd â gofal cymdeithasol ac addysg, a chynyddu dealltwriaeth o strategaethau, a gweithredu strategaethau, er mwyn gwella presenoldeb mewn ysgolion ac ymgysylltiad ar gyfer y plant yn eich cartref.

# Tystysgrif gwerthfawrogiad

Hoffem i: (enw)

deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi / ei bod yn cael ei gwerthfawrogi am: